

## Canton: Romilly Road – Gwaredu'r Culhau â Blaenoriaeth

### Disgrifiad o Gynnig y Cynllun

Mae'r Cyngor yn hysbysu preswylwyr ynghylch cynlluniau i wneud newidiadau i'r briffordd ar Heol Romilly.

Mae nodwedd culhau â blaenoriaeth ar Heol Romilly ger ei chyffordd â Romilly Place; mae hyn yn lleihau llif traffig i'r ddau gyfeiriad yn un rhes. Cynigir tynnu'r nodwedd hon a'i disodli â chroesfan sebra ddyrchafedig allan i'r ffordd. Gall culhau â blaenoriaeth amharu ar lif traffig, cythruddo gyrwyr, ac achosi oedi i deithiau bws. Bydd eu gwaredu'n gwella dibynadwyedd amseroedd bysus drwy eu helpu i symud.

Bydd y mesurau arafu traffig yma yn gwella cyfleusterau croesi i gerddwyr yn yr ardal ond hefyd yn helpu i leihau cyflymder cerbydau ar hyd Heol Romilly sy'n creu priffordd fwy diogel i bawb sy'n ei defnyddio.

Cronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r cynllun hwn.

Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau a allai fod gennych ynghylch y cynigion. Rydym yn deall y gallai fod awgrymiadau eraill gennych i wella diogelwch ar hyd Heol Romilly. O ganlyniad i gyfyngiadau ar arian efallai na allwn newid y cynlluniau hyn ryw lawer ar yr adeg hon, ond byddwn yn cadw cofnod o unrhyw awgrymiadau rydym yn eu derbyn i'w hymgorffori yng nghynlluniau'r dyfodol.

Os hoffech chi wneud unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn, anfonwch e-bost aton ni cyn 23/08/2019 at ProsiectauTrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3289.

### Rhagor o Wybodaeth am fesurau rheoli traffig

Nodweddion Arafu Traffig. Mae'r term hwn yn cyfeirio at fesurau rheoli traffig ffisegol penodol sy'n gorfodi gyrwyr i leihau cyflymder cerbydau. Mae'r rhain yn cynnwys twmpathau ffordd, clustogau arafu, byrddau arafu, rhwystrau culhau'r ffordd, rhwystrau igam-ogamu, pyrth arafu, cylchfannau a nodweddion tebyg eraill.

Croesfan Sebra. Mae'r math hon o groesfan yn addas ar gyfer safleoedd sydd â lefelau canolog o alw gan gerddwyr a llif traffig lle nad oes cyfiawnhad dros **groesfan pâl**. Gall wasanaethu cerddwyr yn well, gan nad oes amser aros penodedig cyn cael yr hawl i groesi. Gellir eu cyfuno'n hawdd â **rhwystrau ymwithiol** sy'n gwella gwelededd i gerbydau, yn lleihau'r pellteroedd croesi ac yn egluro bod cerddwyr yn bwriadu croesi'r ffordd.


Croesfan Sebra â Bwrdd. **Croesfan sebra** sy'n cynnwys bwrdd arafu, neu sydd ar **gyffordd fwrdd**, yn rhan o fesurau ehangach i arafu traffig neu ar ei ben ei hun.

Porth Cul Blaenoriaethol. Mesur arafu traffig gyda **rhwystrau ymwithiol** yn culhau'r ffordd fel mai ond un cerbyd ar y tro all deithio drwy'r porth. Ym mhob cynllun newydd i

gulhau ffyrdd, rhoddir blaenoriaeth i geir sy'n teithio o un cyfeiriad. Gallant hefyd gynorthwyo cerddwyr i groesi'r ffordd oherwydd bod y ffordd yn gulach a bod gwell gwelededd. Maen nhw'n fwyaf effeithiol pan fo nifer tebyg o gerbydau yn defnyddio'r ffordd i'r ddau gyfeiriad, gyda 10 i 20 o gerbydau y funud yn ystod yr awr frig.

## Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn [www.caerdydd.gov.uk/transportprojects](http://www.caerdydd.gov.uk/transportprojects) ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch [Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk](mailto:Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk) neu ffoniwch 029 2087 3289 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn **23/08/2019**



**The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.**

Further details about this consultation are available at [Cardiff.gov.uk/TransportProjects](http://Cardiff.gov.uk/TransportProjects) using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail [TransportProjects@cardiff.gov.uk](mailto:TransportProjects@cardiff.gov.uk) or telephone 029 2087 3289 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **23/08/2019**